Cost niweidiau gamblo yn y DU ar bwrs y cyhoedd yw £1.27 biliwn

Mae gan 85% o fusnesau bolisïau alcohol a chyffuriau ond mae gan lai na 5% bolisi gamblo

Mae tua 1.3 miliwn o gamblwyr niweidiol yn y DU

Mae gamblwyr niweidiol 15 gwaith yn fwy mewn perygl o ladd eu hunain na'r cyhoedd yn gyffredinol

A CHARTER TO REDUCE
GAMBLING RELATED HARMS
IN THE WORKPLACE

Nod Barcud y Siarter Gweithle i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo

Mae mudiadau sy'n ymrwymo i'r siarter gweithle yn cael caniatâd, wedi'u trwyddedu a'u hardystio i arddangos nod barcud siarter y gweithle i leihau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo. Ar ôl eu trwyddedu, yn amodol ar y telerau ac amodau defnyddio, caniateir i fudiadau ddefnyddio'r nod barcud ar eu gwefan, cyhoeddiadau, e-byst ac arwyddion. Mae'r nod barcud yn cael ei ddyfarnu i fudiadau i gydnabod eu haddewid a'u hymrwymiad i gefnogi eu gweithwyr, a allai fod mewn perygl neu'n profi niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

0330 1340 286

www.recovery4all.co.uk

11-12 Kings Court, King Street, Bristol, BS1 6EF

9 Compton Road, Tonypandy, CF40 1BE

30 Dean Street, Bangor, LL57 1UR

adferiad am bawb
Gwasanaeth Gamblio

adferiad am bawb
Gwasanaeth Gamblio

A CHARTER TO REDUCE
GAMBLING RELATED HARMS
IN THE WORKPLACE

Siarter yn y Gweithle i Leihau Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo

""Mae Niwed sy'n Gysylltiedig â Gamblo yn mynd yn ehangach na'r effaith ar yr unigolyn ac yn ymdrin ag effeithiau niweidiol gamblo ar lechyd a Lles unigolion, teuluoedd, cymunedau a chymdeithas. Byddem yn annog cyflogwyr a chyflogeion i gefnogi'r siarter hon a chydweithio i helpu i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ar lefel gweithle."

Comisiwn Gamblo

Mae'r **Siarter yn y Gweithle** yn darparu fframwaith ar gyfer gweithredu i helpu cyflogwyr a staff i hyrwyddo arfer da mewn iechyd a gwaith yn eu mudiad.

Mae gamblo niweidiol yn effeithio'n negyddol ar iechyd unigolion o oedran gweithio, gyda thua 1.3 miliwn o gamblwyr niweidiol yn y DU. Mae'r Siarter yn darparu ffyrdd ymarferol i gyflogwyr a staff gefnogi gweithwyr yr effeithir arnynt gan niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gyda'r nod o leihau salwch, absenoldeb a hwyluso newid.

Mae gan gefnogi gweithwyr i wneud dewisiadau iachach ynghylch gamblo nifer o fanteision, gan gynnwys mwy o gynhyrchiant, cynaliadwyedd a chostau is. Mae gamblo niweidiol yn cyfrannu at absenoldeb yn y gweithle, gan gostio dros £1.27 biliwn i fusnesau a'r economi bob blwyddyn.

Mae gan niweidiau sy'n gysylltiedig â gamblo

- Gysylltiadau clir ag ardaloedd difreintiedig a mwy o anghydraddoldebau iechyd.
- Lefelau uwch o yfed alcohol (74% yn yfed 50 uned yr wythnos).
- Effeithiau ariannol ac iechyd meddwl a ddangosir fel y niwed mwyaf sylweddol.

Mae mynd i'r afael â gamblo niweidiol yn fater y gall cyflogwyr a staff weithio arno ar y cyd ac mae ymdrechion cyfunol o'r fath yn sail i'r dull a fabwysiadwyd gan y cytundeb hwn.

Cytundeb Siarter

Cam 1: Byddwn yn gwneud ymrwymiad

- Rydym yn cadarnhau y bydd ymrwymiad clir gan uwch reolwyr bod polisïau ar gamblo yn ganolog i ddull y mudiad o ymdrin ag iechyd a lles. Nodir yr ymrwymiad hwn ar ffurf sy'n weladwy ac yn ddealladwy i'r holl weithwyr.

Cam 2: Byddwn yn adeiladu ein dull gweithredu

- Rydym yn cadarnhau y bydd yr uwch dîm rheoli yn deall ac yn gweithredu ar ei holl ddyletswydd gofal ynghylch niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a rheoli risg yn y gweithle. Bydd yr uwch dîm rheoli yn ceisio cyfathrebu, ymgynghori a chynnwys cynrychiolwyr undebau llafur a fforymau gweithwyr wrth adeiladu ei ddull gweithredu, fel y bo'n briodol.

Cam 3: Byddwn yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol

- Byddwn yn sicrhau y bydd safonau rheoli effeithiol ar waith fel bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi wrth ddioddef niwed, neu mewn perygl o ddioddef niwed, sy'n gysylltiedig â gamblo.

Cam 4: Byddwn yn cefnogi ac yn hyfforddi

- Rydym yn cadarnhau y bydd arweinyddiaeth y mudiad yn sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n rhydd, y byddwn yn ymgynghori â staff a bod pob gweithiwr yn gwybod sut i gael gafael ar gymorth a chyda phwy i drafod eu hanghenion, mewn perthynas â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo.

- Bydd rheolwyr llinell a staff perthnasol yn derbyn hyfforddiant sy'n eu helpu i ddeall a chyfeirio unigolion at ffynonellau cymorth mewn perthynas â niwed sy'n gysylltiedig â gamblo, gydag aelodau allweddol o staff wedi'u hyfforddi yn y rhaglen 'Fentrai Gallwch Chi Helpu'.

Cam 5: Byddwn yn darparu'r gefnogaeth gywir

- Rydym yn cadarnhau y bydd rheolwyr a staff perthnasol yn cael eu hyfforddi ac yn hyderus wrth gydnabod niwed sy'n gysylltiedig â gamblo a sut i gynnal sgyrsiau sensitif a chyfrinachol a chefnogi cydweithwyr

Cam 6: Byddwn yn helpu pobl i wella

- Rydym yn cadarnhau y bydd gweithwyr sy'n profi problemau niwed sy'n gysylltiedig â gamblo ac sy'n gorfod cymryd amser i ffwrdd o'r gwaith yn cael cymorth priodol i'w helpu i ddychwelyd i'r gwaith pan fyddant yn barod.

- Bydd rheolwyr llinell yn cadw cysylltiad â gweithwyr mewn sefyllfaoedd o'r fath a, lle bo'n briodol, gwneir addasiadau i helpu gyda'r gweithwyr i drosglwyddo yn ôl i'r gweithle.

Cam 7: Byddwn yn ceisio cydraddoldeb ac yn ymdrin â materion gyda sensitifrwydd

- Sicrhawn fod materion gamblo niweidiol yn cael yr un cydraddoldeb â pholisïau sy'n ymwneud â chyffuriau ac alcohol.

- Caiff gweithwyr eu trin â sensitifrwydd ac fe'u trinnir yn briodol pan godir pryderon naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol trwy gwyno a gweithdrefnau disgyblu.